


CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU GRŴP CYNEFINOEDD YR UCHELDIR

Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredu cynefin grŵp hwn yn cynnwys cynefinoedd gweundir yr ucheldir, gorgors, trylifiadau, ffeniau a chorsydd siglennaidd ar dir uchel, a sgri.

Mae **gweundir yr ucheldir** i'w ganfod ar briddoedd mwynol a mawn tenau ar ucheldir yn y sir, uwchlaw terfyn uchaf tir sydd wedi'i amgáu'n amaethyddol. Mae'n cynnwys gweundir 'gwlyb' a 'sych'. Nodweddir gweundir sych gan orchudd tal o rywogaethau fel grug, grug y mêl, llus, creiglus ac eithin mân. Ar weundir gwlyb yn bennaf ceir cymysgedd o rug, grug croesddail, glaswellt y gweunydd a glaswellt y ceirw, ynghyd â charpedi o fwsoglau (yn arbennig rywogaethau *Sphagnum*). Mae i weundir o ansawdd dda leiniau o rug ar wahanol gyfnodau tyfu (h.y. mae'n amrywiol ei strwythur). Yn Sir Gaerfyrddin, collwyd gweundir ac mae wedi dirywio o ran ei ansawdd oherwydd pori trwm, llosgi a'i droi wedyn yn laswelltir, a choedwigo.



Mae gweundir yr ucheldir yn aml yn ffurfio brithwaith gyda chynefinoedd eraill fel gorgors, mignen, glaswelltir, rhedyn, sgri, prysgwydd a choetir. Gall llystyfiant corlwyni hefyd ddominyddu gorgors, ond mae'r cynefin hwn yn digwydd fel arfer dros fawn dwfn ac mae'n destun cynllun gweithredu ar wahân. Yn yr un modd, mae gweundir yr iseldir sy'n gorwedd islaw'r terfyn amgáu uchaf hefyd yn destun cynllun ar wahân.

Cymharol fach yw'r holl weundir ucheldir yn Sir Gaerfyrddin. Mae llawer o'r cynefinoedd gweundir ucheldir i'w canfod yn y gogledd a'r dwyrain. Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cwm Doethie–Mynydd Mallaen yn cynnal ardal helaeth o weundir yr ucheldir ac mae wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig ar sail ei llystyfiant gweundir sych. Mae Mynydd Llanllwni, i'r gogledd o Frechfa, yn ardal bwysig heb ei dynodi, wedi'i ffurfio'n bennaf o weundir gwlyb, y byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddi er ei bod yn cael ei gorbori braidd.

Mae **gorgors** yn gynefin prin ar draws y byd, gyda 10–15% ohono ym Mhrydain ac Iwerddon. Yn y Deyrnas Unedig mae'n gorchuddio ardaloedd eang o ucheldiroedd y gogledd a'r gorllewin, lle mae'r hinsawdd yn glaeu a gwlyb fel arfer. Mae dyfnder y mawn yn fwy na 0.5m yn gyffredinol, gan ei fod wedi cronni wrth i ddeunydd planhigion ddadelfennu'n araf o dan amodau dyfrlawn. Dengys astudiaethau i'r rhan fwyaf o'r mawn gorgors yn y Deyrnas Unedig ddechrau datblygu rhwng 5000 a 6000 o flynyddoedd yn ôl.

Mae mwsoglau cors (rhywogaethau *Sphagnum*) yn elfen amlwg yn llystyfiant gorgors, ynghyd â chorlwyni fel grug, llus, creiglus a grug croesddail. Ymysg y planhigion cyffredin eraill mae plu'r gweunydd a glaswellt y ceirw. Gall gorgorsydd gynnal ffawna di-asgwrn-cefn cyfoethog ac maent yn aml o bwys adaregol.

Mae'r carbon sydd wedi'i ddal yn y mawn yn gwneud hwn, ynghyd â chynefinoedd mawn eraill, yn dyngedfennol yn yr her o fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae llawer o'r gorgorsydd yn Sir Gaerfyrddin wedi cael eu hadnewid ac nid ydynt mwyach yn creu mawn. Dengys data arolygu ardaloedd o gorgors sy'n dal yn gyfan ond mae llawer mwy yn

gynefin cors adnewidiadol gwlyb a sych. Mae llawer o'r llystyfiant hwn wedi'i ganoli yn ardaloedd ucheldir gogledd Sir Gaerfyrddin.

Ceir llystyfiant gorgors ar ddau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Sir Gaerfyrddin, yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eang Cwm Doethie–Mynydd Mallaen. Ceir llawer o ardaloedd o orgors ar dir comin.

Cynefinoedd brigiadau craig a sgrï mewndirol

I'w ychwanegu.

Trylifiadau, ffeniau a chorsydd siglennaidd ar dir uchel

I'w ychwanegu.

Ffridd

Er nad yw ffridd yn gynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth â blaenoriaeth yn y Deyrnas Unedig, mae wedi cael ei nodi fel cynefin pwysig yn y sir ac mae felly'n cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu hwn.

Mae ffridd yn cynnwys brithwaith o fathau lled-naturiol o gynefin. Rhedyn sy'n dominyddu yno fel arfer, ac mae'n cynnwys nifer o'r canlynol: gweundir gwlyb a sych, glaswelltir asidig, coetir, prysgwydd a glaswelltir corsïog. Fel arfer fe'i ceir ar y tir rhwng caeau amgaeedig a'r bryn agored neu blanhigfa gonwydd ucheldir, ond mae i'w gael hefyd mewn caeau amgaeedig lle mae'r rhain wedi cael eu gadael, a bod cynefin ffridd wedi gallu datblygu, yn aml ar dir serth sy'n anodd ei ffermio. Fel cynefin gall ffridd ymestyn dros ardaloedd reit eang ac mae felly'n gwneud cyfraniad pwysig i dirwedd Cymru.

Mae ffridd hefyd yn cynnal cynullïadau pwysig o adar bridio yn cynnwys rhywogaethau fel y llinos, corhedydd y coed, bras melyn a chlochdar y cerrig. Mae'r poblogaethau mawr o famaliaid bach a geir yma yn fwyd i adar ysglyfaethus.

Manteision naturiol cynefinoedd yr ucheldir

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Rheoleiddio'r hinsawdd drwy storio carbon mewn mawnogydd.
- Peillio – gweundir yr ucheldir.
- Amddiffynfa naturiol rhag llifogydd drwy storio dŵr mewn corsydd ucheldir a ffeniau.
- Cyflenwad o ddŵr glân – mae cyfran sylweddol o gyflenwad dŵr y Deyrnas Unedig yn deillio o afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yr ucheldiroedd e.e. Llyn y Fan Fach.
- Rheoli rhyddhau dŵr – mae gweundiroedd, corsydd, trylifiadau a ffeniau'n help i atal dŵr ffo, problem ar ucheldiroedd sy'n cael eu gorburi.
- Mae ucheldiroedd yn darparu bwyd inni – mae cig oen a chig eidion Sir Gaerfyrddin yn aml yn cael ei gynhyrchu ar ein ucheldiroedd ni.
- Mae'r ucheldiroedd yn dal pob math o gyfrinachau am ein hanes fel pobl a hanes yr hinsawdd – henebion, tystiolaeth o hen systemau amaethyddol, tystiolaeth o weithfeydd mwynau a chofnod paill wedi'i gadw mewn priddoedd mawn – gan ddatgeli amodau hinsawdd y gorffennol.
- Mae ucheldiroedd yn fannau gwych i brofi ehangder yr awyr agored ac i weld y dirwedd yn ymledu oddi tanoch.

Pam mae cynefinoedd yr ucheldir yn newid (o adroddiad *State of Nature*: www.rspb.org.uk/stateofnature)?

- Planhigfeydd coedwigaeth.
- Llygredd atmosfferig.
- Ffermio.
- Newid hinsawdd.
- Rhai mathau o reoli cynefin.

Datganiad o weledigaeth ac amcanion

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal, adfer ac ehangu'r cynefinoedd hyn a'r rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cymeriad y dirwedd a chysylltu cynefinoedd o fewn tirwedd Sir Gaerfyrddin, ac o ran gorgorsydd yn eu rôl yn cyfrannu tuag at liniaru newid hinsawdd. Mae casglu rhagor o wybodaeth am y cynefinoedd hyn y tu allan i safleoedd dynodedig, ynghyd â'u cyflwr a'u statws rheoli cyfredol, yn flaenoriaeth. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

UP1 Rheoli'r cynefinoedd ucheldir hyn yn Sir Gaerfyrddin mewn modd cadarnhaol a'u cysylltu a'u hehangu lle mae hynny'n bosib.

UP2 Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gynefin.

UP3 Nodi a chofnodi ardaloedd o gynefinoedd ucheldir yn Sir Gaerfyrddin y tu allan i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

UP4 Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd ucheldir a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol/Ad42 cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr):

Adar – Troellwr mawr, Ehedydd, Corhedydd y coed, Llinos, y Gog, Bras melyn, Troellwr bach, Gylfinir, Mwyalchen y mynydd, Cornchwigen, Cwtiad aur

Mamaliaid - Ysgyfarnog, Llygoden bengron y dŵr

Infertebratau – Gweirlöyn bach y waun, Pali tywyll, Brychan llwyd y mynydd, Brychan y friwydd, Clai'r waun, Clai'r rhos, Llwyd gloyw

Ymlusgiaid - Gwiber

Planhigion - *Euphrasia ros koviana montana*, Merywen, Tegeirian bach y gors, rhywogaethau *Hieracium*, Cnwp-fwsogl corn carw, Cronnell, Ffacbysen chwerw

Crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010-12

- Safleoedd allweddol i Gnwp-fwsogl corn carw wedi'u nodi yn y sir – Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain UP2
- Comin Pylliau Collion – prosiect adfer cors drwy focio ffosydd – Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyfoeth Naturiol Cymru UP1
- Arolwg o rywogaethau adar yr ucheldir ar dir comin – Clwb Adar Sir Gaerfyrddin/Cyngor Sir Caerfyrddin UP2

2013

- Hyfforddiant i gominwyr ynghylch cynefinoedd glaswelltir a rhostir ar dir uchel – Llanllwni – Cyngor Sir Caerfyrddin UP4
- Arolwg ar dir comin o rywogaethau adar yr ucheldir wedi'i gwblhau – Clwb Adar Sir Gaerfyrddin / Cyngor Sir Caerfyrddin UP2
- Dal ati i reoli Gwarchodfa Natur Nant Melyn – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru UP1
- Presenoldeb llygod pengrwn y dŵr wedi'i gofnodi yn nentydd ucheldir gogledd Sir Gaerfyrddin - Cyfoeth Naturiol Cymru UP2

Gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol

- Prosiect adfer cors ar dir comin yr ucheldir – rheoli cynefin/toriadau tân/blocio ffosydd/cynlluniau rheoli – Cyngor Sir Caerfyrddin/Cyfoeth Naturiol Cymru UP1

Dolenni defnyddiol:

<http://jncc.defra.gov.uk/page-1436>

www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/upland

www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Uplands


Ble gallwch chi weld y cynefinoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin:

Mynydd Mallaen, Mynydd Du, Mynydd Llanllwni

Mapiau wedi'u defnyddio gyda chaniatâd Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2004. Tynnwyd o *Priority Habitats of Wales: a technical guide*, golygyddion P. S. Jones, D. P. Stevens, T. H. Blackstock, C. R. Burrows ac E. A. Howe., 2003.


Atgynhyrchwyd o'r map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Cedwir Hawlfraint y Goron -LA0997L

Gorgors




Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin gorgors ucheldir a thir isel yn Sir Gaerfyrddin. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1979 – 1997) ac mae'n cynnwys gorgors yn ogystal ag ardaloedd o gors adnewidiadol gwlyb a sych a mawn noeth a briodolir i'r math hwn o gynefin â blaenoriaeth.

Gweundir gwlyb yr ucheldir



Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin gweundir gwlyb yr ucheldir yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r data'n cynnwys gweundir gwlyb a hanner y gorchudd o frithwaith glaswelltir/gweundir gwlyb, ac fe'i crynhowyd o Arolwg Cynefinoedd Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1979 – 1997); arolygwyd y cynefin hwn yn bennaf rhwng 1979 ac 1989.

Gweundir gwlyb yr ucheldir



Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin gweundir sych yr ucheldir yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r data'n cynnwys gweundir sych asidig a hanner y gorchudd o frithwaith glaswelltir/gweundir sych, ac fe'i crynhowyd o Arolwg Cynefinoedd Cymru yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1979 – 1997); arolygwyd y cynefin hwn yn bennaf rhwng 1979 ac 1989.



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol:
Cyngor Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorrlewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gwarchod Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, Naturiaethwyr Llanelli, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorrlewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid